| | | |
|---|---|---|
| **Cofnodion cyfarfod 20fed o Fai 2025 am 7 yn yr hwyr yn y Neuadd Goffa.** | | |
| **PRESENNOL** | | |
| Emyr Gareth | Eifion Williams | |
| Meleri Jones | Dan Williams | |
| | | |
| | Cynghorydd Sir Iwan Huws | |
| **1.0** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cynghorydd Emyr Gareth gan dderbyn ymddiheuriadau gan Y Cynghorwyr Dafydd Huws, Cynghorydd Llyr Evans a'r Cynghorydd Eleri wyn Thomas. | **CLERC** |
| **1.1** | Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd. | |
| **1.2** | Rhaglen Adolygu Etholiadol 2025 - derbyn y ddogfen ond nid oedd unrhyw sylwad ar y cynnwys. | |
| **1.3** | Clybiau Ieuenctid Gwynedd - trafodwyd y mater a phenderfynu byddai'r Cyngor yn parhau cefnogi gweithgareddau'r Urdd yn y pentref. Penderfynwyd hefyd gwahodd swyddogion yr urdd sydd yn gysylltiedig â rhedeg y gweithgaredd i gyfarfod y Cyngor Cymuned i gael adborth ar y fenter. | **Clerc** |
| **1.4** | 11a Ffordd Caernarfon, Y Felinheli - cafwyd gohebiaeth gan gyfreithwyr perchennog presennol a'r darpar perchenog y plot i ystyried gollwng prydles sydd gan y Cyngor Cymuned oddi wrth Cyngor Gwynedd ar ffin y ploit. Ystyriwyd y mater a phenderfynwyd bod y Cyngor Cymuned yn parhau a'r bwriad i greu lôn beicio a cherdded ar yr hen reilffordd a ni fydd y brydles yn cael eu hildio. | **Clerc** |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| **2.1** | Dim. | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL** | |
| **3.1** | Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno mis nesaf. | |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Ebrill 2025. | |
| **4.2** | Toiledau - disgwyl dyddiad dechrau'r gwaith oddi wrth y contractwr. | **CLERC** |
| **4.3** | Cynllun Rheoli Traffig - anfon at Asiantaeth Cefnffyrdd i ofyn a oes unrhyw ddatblygiad oddi wrth Llywodraeth Cymru i'r cais o osod trefn unffordd anffurfiol drwy'r pentref pan fyddo'r ffordd osgoi ar gau. | **CLERC** |
| **4.4** | Biniau Cae Pêl droed Ffordd Lan y Môr - mae'r bin i'w osod ar y safle'r wythnos yma. | |
| **4.5** | Cae Chwaraeon Lan y Môr - Y Clerc i wneud cais cynllunio ar lein ar gyfer y datblygiad hwn o osod ffens newydd tu ôl i'r goliau ar y Cae Chwarae Pêl droed. | **CLERC/EG** |
| **4.6** | Llwybr Cerrig yr Afon - cyfarfod wedi bod ar safle gyda'r Cynghorydd Eifion Williams, contractwr a'r ffarmwr sydd â chytundeb pori ar y tir. Gobeithir cwblhau'r gwaith yn | **CLERC/EW** |

| | | |
|---|---|---|
| | fuan. Mae rhan lle mae'r defaid yn galluogi mynd at yr afon i gael diod wedi ei drwsio dros dro. | |
| **4.7** | Costau Cludiant Cyhoeddus o'r Felinheli tuag at Gaernarfon a Bangor. Nid oes ymateb wedi bod gan Arriva dim ond cydnabyddiaeth derbyn gohebiaeth a byddant yn ymateb o fewn 10 diwrnod. Y Clerc i barhau i drio cael ymateb. | **Clerc/EG** |
| **4.8** | Materion Priffyrdd- Wal Ffordd Gaernarfon Ffens gyferbyn a'r Faenol - cafwyd gwybodaeth gan Adran Priffyrdd Gwynedd bod perchnogion y wal wedi derbyn llythyr anffurfiol i ymdrin â'r gordyfiant. | |
| **4.9** | Cae Pêl Droed a Parc Cychod Lan y Môr - ymweliad safle i'w drefnu ar gyfer gosod prydlesau ar y tiroedd. | |
| **5.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| **5.1** | Rhif Cais: C25/0220/20/RA Lleoliad: Caffi Lloft Hwyliau, Glan Y Môr, Y Felinheli, LL56 4RQ Bwriad: Cais i ryddhau amod 7(manylion ffens diogelwch) ar ganiatad rhif C24/0189/20/RA DIM GWRTHWYNEBIAD | **CLERC** |
| **6.0** | **RHEOLAETH** | |
| **6.1** | Gwaith ar y wefan yn parhau. | **CLERC** |
| **7.0** | **ASEDAU** | |
| | Nid ydym wedi derbyn pris gan y Contractwr Dafydd Williams ar gyfer gosod paneli polycarbonate ar y cysgodfanau bysiau. Y Clerc i wneud ymholiadau eto gydag ef. | |
| **8.0** | **LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD** | |
| **8.1** | Colofn Golau Stryd Bangor Y Felinheli - mae'r golofn gyferbyn ag Arfonia wedi ei hollti ers peth amser a dim i weld yn cael ei wneud amdano. Y Clerc i wneud ymholiadau pa bryd fydd y gwaith o'i godi yn ôl yn cael ei gwblhau. | **CLERC** |
| **8.2** | Ffens gyferbyn a wal y faenol | |
| **9.0** | **NEUADD GOFFA A CHLOC** | |
| **9.1** | Dim gwybodaeth ychwanegol i'r mis diwethaf. | **DW** |
| **10.00** | **CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL** | |
| | Nid yw cynllun o gwlis o fewn y pentref wedi ei dderbyn i ddyddiad. Y Cynghorydd Emyr Gareth am wneud cais at yr adran briffyrdd. Pwrpas y cynllun yw gallu rhannu'r gwaith o'u harchwilio adeg tywydd drwg rhwng gwardeiniaid llifogydd y pentref. | **EG** |
| | **Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9.00 yn y r hwyr.** | |
| **Llofnod:** | | |



Heather Lynne Jones